

gwella ansawdd gofal

cefnogi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer
Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal
Cymdeithasol
2016 – 2019

gwasanaeth

cyflawni

Rheoleiddio ac Arolygu

parch ac urddas

Addysg

dyfodol

Hyrwyddo ac

Broffesiynol

Ymgysylltu

deall

iaith

cefnogi

Mwy

Mapio, Archwilio,
Casglu Data
ac Ymchwil

cynnal

arweinyddiaeth

diogelwch cleifion

proffesiynol

Arweinyddiaeth

Genedlaethol a

Lleol, a Pholisi

Cenedlaethol

herio

dyfodol

iaith

bodloni anghenion

proffesiynol

arweinyddiaeth

Cynllunio Gwasanaethau,
Comisiynu, Contractio a
Chynllunio'r Gweithlu

ymarfer

Cynnig Rhagweithiol

Cymraeg yn y gweithle

cymuned

herio

deall

diogelwch cleifion

proffesiynol

Arweinyddiaeth

Genedlaethol a

Lleol, a Pholisi

Cenedlaethol

herio

dyfodol

iaith

bodloni anghenion

proffesiynol

arweinyddiaeth

Cynllunio Gwasanaethau,
Comisiynu, Contractio a
Chynllunio'r Gweithlu

ymarfer

Cynnig Rhagweithiol

Cymraeg yn y gweithle

cymuned

herio

deall

cyflawni

cynllunio

datblygu

cymuned

sgiliau

cefnogi

o o o o

gwasanaeth

Manylion cyswllt:

Uned Polisi Iaith Gymraeg
Iechyd a Gwasanaethau Cymdetihasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: mwynageiriau@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 3135



TUDALEN

- 3 Cynnwys
- 4 Rhagair y Gweinidog
- 6 Cyflwyniad

PENNOD

- 8 PENNOD 1: Cyd-destun Polisi ar gyfer darparu Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol
- 16 PENNOD 2: Adeiladu ar *Mwy na geiriau....*
- 18 PENNOD 3: Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd

AMCANION

- 31 Amcan 1: Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol
- 33 Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil
- 35 Amcan 3: Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu
- 37 Amcan 4: Hybu ac Ymgysylltu
- 39 Amcan 5: Addysg Broffesiynol
- 41 Amcan 6: Y Gymraeg yn y gweithle
- 43 Amcan 7: Rheoleiddio ac Arolygu

ATODIADAU

- 44 Atodiad 1: Enghreifftiau o arfer Da Mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
- 48 Atodiad 2: Rhestr o Acronymau

RHAGAIR Y GWEINIDOG

Mae sicrhau diogelwch, urddas a pharch siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig wrth ddarparu gwasanaethau iechedd a gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n fwy na chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chynnal safonau proffesiynol yn unig; mae hefyd yn ymwneud â gwella ansawdd y gofal a diwallu anghenion ieithyddol pobl, a darparu gwasanaethau cyhoeddus da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae *Mwy na Geiriau....*, fframwaith strategol gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechedd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a lansiwyd yn 2012, wedi arwain at nifer o welliannau gan helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau iechedd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mamiaith. Llwyddwyd i sicrhau hyn drwy wneud y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau a oedd eisoes yn bodoli ar draws ein GIG a'n gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r fframwaith strategol olynol hwn yn ceisio cynnal y momentwm. Ar ben hynny mae'n ceisio annog mwy o ddarparwyr gwasanaethau i gydnabod bod y defnydd o'r Gymraeg yn fwy na mater o ddewis yn unig, ei fod hefyd yn fater o angen. Mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl agored i niwed a'u teuluoedd gael mynediad at wasanaethau yn eu mamiaith, megis pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu sydd wedi cael strôc ac sydd o bosib wedi colli eu hail iaith, neu blant ifanc iawn sydd efallai ond yn siarad Cymraeg.

Pan lansiwyd *Mwy na Geiriau....* yn 2012, roedd yn amlwg y byddai'n cymryd amser i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn iechedd a gwasanaethau cymdeithasol. Wrth ddathlu llwyddiant amrywiol fentrau yn seremoni flynyddol Gwobrau'r Gymraeg mewn Iechedd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, gwelwyd bod llawer o ymrwymiad i wireddu gweledigaeth *Mwy na Geiriau....* ond gellid gwneud mwy i sicrhau rhagor o gysondeb wrth ei weithredu ar draws Cymru.

Mae'r fframwaith olynol hwn hyn canolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion yr unigolyn, yn hytrach na gweithdrefnau yn unig. Rydym hefyd wedi cymryd y cyfle i sicrhau bod y fframwaith yn adlewyrchu newidiadau yn y dirwedd

wleidyddol a deddfwriaethol ers cyhoeddi'r *Mwy na Geiriau....* gwreiddiol. Felly bydd gweithredu'r fframwaith olynol hwn yn gosod sylfaen gref i sefydliadau ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a fydd yn dod i rym cyn hir.

Ni fydd yr amcanion a amlinellwyd yn y fframwaith olynol hwn yn cael eu cyflawni dros nos, ond rwy'n gwybod bod ymrwymiad clir i sicrhau newid. Rhaid i ni gofio gofyn i ddefnyddwyr ein gwasanaethau beth sy'n bwysig iddynt, nid dim ond beth sy'n bod arnynt. Byddwn wedyn ar y trywydd cywir i wireddu'r weledigaeth.



Mark Drakeford

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr hyn sy'n ganolog i'r holl ddadleuon dros gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yw diogelwch, urddas a pharch i gleifion. Mae gofal ac iaith yn mynd law yn llaw a gellir peryglu ansawdd y gofal drwy fethu â chyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf.

Mae yna lawer o bobl na allant gyfathrebu a chymryd rhan effeithiol yn eu gofal hwy eu hunain, fel partneriaid cyfartal, ond drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfrifoldeb felly ar ddarparwyr gwasanaethau i ateb yr anghenion gofal hyn. Gall iaith ymddangos yn fater ymylol i rai ond gall fod yn allweddol i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae pobl yn dewis derbyn gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg oherwydd mai dyna sydd orau ganddynt a dyna eu hawl. I eraill, fodd bynnag, mae'n fwy na mater o ddewis - mae'n fater o angen. Mae hyn yn arbennig o wir am yr henoed, pobl â dementia neu bobl sydd wedi cael strôc, neu blant bach nad ydynt yn siarad dim ond Cymraeg. Mae'n bwysig hefyd cydnabod nad yw'r unigolyn bob amser mewn sefyllfa i fynegi ei ddewis. Mae pobl yn aml yn agored i niwed, a heb hyder i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Rhaid i iaith felly fod yn rhan annatod o'r gofal a ddarperir.



Drwy gydol fy ngyrfa, rydw i wedi gweld llawer o sefyllfaoedd lle roedd diffyg staff oedd yn siarad Cymraeg, a hynny wedi arwain at gamddehongli anghenion cleifion neu hyd yn oed ddiagnosis anghywir, oherwydd bod cleifion yn ddryslyd, mewn poen neu wedi colli'r gallu i ddeall a siarad Saesneg

– Darparwr gwasanaeth

Gyda chyfran uchel o wasanaethau yn y GIG, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cael eu contractio i drydydd parti, mae'n hanfodol hefyd bod sensitifrwydd i'r iaith yn glir ac yn eglur bob amser wrth gomisiynu.

Mae yna ddealltwriaeth fod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ariannol tynn a heriol iawn ond nid yw sylweddoli'r weledigaeth yn y fframwaith strategol olynol hwn yn debygol o fod angen adnoddau ychwanegol. Fe fydd, fodd bynnag, yn golygu bod angen i sefydliadau weithredu'n wahanol.

Mae angen i sefydliadau brif ffrydio gwasanaethau Cymraeg fel rhan annatod o'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt ac o gynllunio'r gweithlu. O ganlyniad i'r fframwaith strategol 'Mwy na geiriau ...' gwreiddiol, cafodd nifer o fentrau eu datblygu oedd yn dangos sut yr oedd modd sicrhau y gallai siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn eu hiaith gyntaf drwy wneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r adnoddau oedd yn bod eisoes.

Mae'r fframwaith strategol olynol hwn yn canolbwyntio ar ofal ac nid gweithdrefnau'n unig, ac felly mae angen i bawb sy'n gweithio mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ofyn i'w defnyddwyr gwasanaeth nid yn unig beth sy'n bod arnynt ond beth sy'n bwysig iddynt.

Arfer da

Roedd nyrs mewn gofal dwys yn gofalu am glaf oedd heb adennill ymwybyddiaeth yn llawn bythefnos ar ôl peidio â chael tawelydd ac roedd hyn yn achosi pryder. Er nad oedd dewis iaith wedi ei nodi yng nghofnodion y claf, dechreuodd y nyrs siarad yn Gymraeg ac fe wnaeth y claf ei deall yn syth. Daethpwyd i weld bod y claf wedi colli ei allu i ddeall a siarad Saesneg.

Cyd-Destun Polisi ar Gyfer Darparu Gwasanaethau Cymraeg Mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(i) Trosolwg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac anghenion pobl. Mae gan sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus gyfrifoldeb i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n caniatáu creu Safonau newydd er mwyn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Felly, mae gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Aadrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod cefnogaeth i ganlyniadau llesiant pobl a bod eu hanghenion gofal a chymorth, gan gynnwys eu hangen o ran iaith, yn cael eu hasesu'n gywir a'u bodloni. Mae llawer o bobl na allant gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal a'u cymorth eu hunain fel partneriaid cyfartal yn effeithiol ond drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly mae cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaeth i gyfarfod â'r anghenion gofal hyn.



Yn Gymraeg, rydw i'n medru siarad am brofiadau a phethau personol. Dydy'r sgwrs ddim yn llifo yr un fath yn Saesneg. Mae'n rhaid i chi gyfieithu, yn enwedig pan ydych chi'n siarad am rywbeth sydd mor bwysig.

– Profiad defnyddiwr

1.2 Ers 2007 Mae Tasglu'r Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod pryder ynghylch y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Daeth yn amlwg i'r Tasglu fod yna ymrwymiad ymhlith y staff oedd yn gweithio mewn Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd peth arfer da hefyd, ond roedd hyn, yn amlach na pheidio, yn ganlyniad i ymrwymiad unigolion, yn hytrach nag yn elfen gynlluniedig o'r gwasanaeth a ddarperid. Yn 2012, mynegodd adroddiad, a gyhoeddwyd gan Gyngor Gofal Cymru, bryder am y diffyg gwasanaethau oedd ar gael i gleifion a'u teuluoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a dylanwadodd yr adroddiad hwn ar bolisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg mewn Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

(ii) Y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Mwy na geiriau....

- 1.3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau....*, ei fframwaith strategol ar gyfer iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, ym mis Tachwedd 2012 er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gynlluniedig a chydgyssylltiedig. Roedd y fframwaith strategol yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau'r gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd hyn. Cyhoeddwyd dau gynllun gweithredu tair blynedd hefyd, y naill ar gyfer GIG Cymru a'r llall ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, i ategu'r fframwaith strategol ac amlinellu'r camau ymarferol oedd eu hangen i wireddu'r weledigaeth. Bwriadwyd i'r fframwaith strategol gwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2013 i fis Ebrill 2016, gydag adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi i ddangos cynnydd.
- 1.4 Mae gallu cael mynediad at wasanaethau Cymraeg yn amlwg yn ddymuniad i rai, ond nid mater o ddewis yw defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg bob tro; mae'n medru bod yn fater o angen hefyd ac yn elfen hollbwysig wrth sicrhau canlyniadau llesiant positif. Gall mynegi a chyfleu anghenion yn Gymraeg fod yn fwy cyfforddus ac effeithiol i'r rheiny sy'n meddwl ac yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir ystyried diffyg gwasanaethau yn Gymraeg felly yn fethiant i ddarparu'r gofynion sylfaenol. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain ac yn cyfleu eu hanghenion yn Gymraeg, gan eu bod yn meddwl ac yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly gellid dadlau, pan na fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, bod hyn yn fethiant i gyfarfod ag angen sylfaenol.



Roedd hi (mam) yn arfer mynd i'r ysbyty ond roedd hi'n anodd iddi fynegi ei hun yn Saesneg. Felly, fe fyddai hi'n teimlo nad oedd pethau'n symud mor gyflym ag y dylen nhw. Fe fyddai hi'n teimlo eu bod nhw'n siarad uwch ei phen hi ac na allen nhw gael sgwrs gyda hi.

– Profiad defnyddiwr

1.5 Mae yna resymau da pam y dylai gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymorth a gofal cymdeithasol fod ar gael yn Gymraeg:

- Gwellu ansawdd gofal a rheidrwydd clinigol – mae’n bwysig cydnabod y cysyniad o angen iaith. Er bod yr iaith Gymraeg yn elfen annatod o ofal a chymorth llawer o siaradwyr Cymraeg mae mwy o angen ar rai grwpiau i dderbyn eu gwasanaethau yn Gymraeg. I’r grwpiau yma dylid ystyried y Gymraeg fel elfen fwy sylfaenol fyth o’r gwasanaeth a ddarperir.

Y grwpiau yma yw:

- o Plant a phobl ifanc
 - o Pobl hŷn
 - o Pobl ag anableddau dysgu
 - o Defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl
 - o Gwasanaethau dementia
 - o Gwasanaethau strôc
 - o Gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith
- Cynnal safonau proffesiynol – mae nifer o safonau proffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn rhestru cyfathrebu effeithiol fel un o’r gofynion allweddol ac yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod pobl yn cael eu trin â pharch ac urddas.
 - Cyfarfod ag angen ieithyddol pobl – mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i gydnabod ac ymateb i angen ieithyddol fel elfen annatod o ofal. Mewn geiriau eraill i ddarparu Cynnig Rhagweithiol.
 - Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a statudol – Mae cyfrifoldeb ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gydymffurfio â’r mesur newydd, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd hwn yn creu Safonau ar gyfer y Gymraeg, gyda’r canlyniad y bydd hawliau yn cael eu sefydlu, fydd yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg.

(iii) Y Cynnig Rhagweithiol



Roedd yna ddau o bobl yn siarad Cymraeg ar y ward a phan fyddai un o'r rhain yn digwydd bod ar ddyletswydd, fe fyddai e'n fwy tawel. Fe fyddai'n eistedd i lawr, ond fel arall fe fyddai'n crwydro o gwmpas. Mae methu â chyfathrebu yn eich iaith gyntaf yn gwneud y cyflwr yn waeth o lawer.

– Profiad defnyddiwr

- 1.6 Un o egwyddorion allweddol *Mwy na geiriau....* yw'r Cynnig Rhagweithiol. Ystyr Cynnig Rhagweithiol yn syml yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant, sy'n cymryd y cyfrifoldeb oddi ar yr unigolyn ac yn ei osod ar ddarparwyr gwasanaethau, a heb gymryd yn ganiataol fod yr holl siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg beth bynnag.



Rydw i'n meddwl ei bod hi'n anodd gofyn am wasanaeth Cymraeg. Does arnoch chi ddim eisiau gwneud lle annifyr i'r bobl sy'n eich trin chi.

– Profiad defnyddiwr

- 1.7 Yng nghyd-destun iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn agored iawn i niwed neu yn teimlo'n bryderus ac felly mae'n annheg disgwyl iddynt hwy ofyn am gael eu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn Gymraeg. Cyfrifoldeb GIG Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau addas, sy'n cynnwys cyfarfod ag anghenion ieithyddol pobl. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gwasanaeth sy'n ddiogel ac yn effeithiol.
- 1.8 Dros y 3 blynedd ddiwethaf cafwyd dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol, sy'n parhau i fod yn elfen allweddol yn y fframwaith strategol *Mwy na geiriau....* Mae pecyn gwybodaeth a hyfforddiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gyda'r bwriad o gynorthwyo pob aelod o staff ar draws GIG Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol i wneud Cynnig Rhagweithiol, wedi bod yn gyfrwng i godi proffil a dealltwriaeth o'r egwyddor. Fel rhan o'r fframwaith strategol olynol hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn creu ac yn diweddarau adnodd gwybodaeth ar-lein ar gyfer yr holl staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i gynorthwyo i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol yn fwy cyson.



Os mai dim ond un iaith y mae'r plentyn yn ei siarad, yna fe ddylech chi gael cynnig y gwasanaeth yn Gymraeg heb orfod gofyn.

– Profiad defnyddiwr

(iv) Safonau'r Gymraeg

- 1.9 Ers cyhoeddi *Mwy na geiriau....*, daeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gyfraith. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer Safonau newydd, sy'n cael eu gosod ar amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.10 Mae'r Cynlluniau Iaith Gymraeg wedi llwyddo i godi proffil gwasanaethau a ddylai fod ar gael yn Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod llawer o'r gwasanaethau yn cael eu darparu'n ddwyieithog erbyn hyn. Mae'r Safonau'n cymryd lle'r Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn adeiladu arnynt, a byddant yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, tra'n sicrhau y darperir gwasanaethau yn ôl dewis iaith, yn ogystal ag yn ôl angen.
- 1.11 Ni ddylid gweld cyflwyno'r Safonau fel ychwanegiad at weithredu *Mwy na geiriau....* nac i'r gwrthwyneb. Dylid ystyried y Safonau yn hytrach fel cyfrwng i gryfhau'r ymrwymadau a wnaed yn y fframwaith strategol dilynol hwn. Drwy gyflawni camau gweithredu y fframwaith strategol hwn, bydd cyrff cyhoeddus yr un pryd yn cyfarfod â rhai o'r Safonau.
- 1.12 Yn wahanol i'r Cynlluniau Iaith Gymraeg cyfredol, mae mwy o ddarpariaethau ar gyfer gorfodi yn Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Pan fydd Comisiynydd y Gymraeg yn darganfod (drwy archwiliadau ar hap neu drwy gwynion a dderbyniwyd) bod corff heb weithredu'n unol â Safon, mae ganddi'r pwerau i ymchwilio i'r diffyg cydymffurfio posibl. Os bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gweld nad yw corff wedi cydymffurfio â Safon, gall orfodi cosb ariannol sifil ar y corff sy'n tramgwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r diffyg cydymffurfio er mwyn gorfodi'r corff i gydymffurfio.
- 1.13 Bydd Safonau'r Gymraeg ar gyfer awdurdodau lleol (ac felly gwasanaethau cymdeithasol) yn dod i rym ar 30 Mawrth 2016 ac mae'r Rheoliadau sy'n creu'r Safonau ar gyfer GIG Cymru yn debygol o gael eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddiwedd 2016 / dechrau 2017. O'r pwynt hwnnw, bydd gan Comisiynydd y Gymraeg yr hawl i gyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio i sefydliadau o fewn GIG Cymru. Bydd gan sefydliadau o leiaf 6 mis ar ôl y dyddiad y mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn cael ei gyflwyno i gydymffurfio â'r Safonau y mae'r Comisiynydd y Gymraeg yn dewis ar eu cyfer.
- 1.14 Gan fod y fframwaith strategol olynol wedi ei adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y Safonau Iaith Gymraeg, os nad yw pobl yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith o'u dewis, byddant yn gallu cwyno i'r Comisiynydd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cysylltu â'r sefydliad sydd wedi methu â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn uniongyrchol ac yna aros am ymateb. Os nad yw'r unigolyn dan sylw yn teimlo bod yr ymateb yn ddigonol, gall yr unigolyn ddewis rhoi gwybod am y mater i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg a all ymchwilio i'r drosedd honedig.

(v) Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

- 1.15 Mae deddfwriaeth Ewropeaidd a chydymffurfio â Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol yn sefydlu'r egwyddor bod: yr hawl i ddefnyddio iaith ranbarthol neu iaith leiafrifol yn breifat ac mewn bywyd cyhoeddus yn hawl ddiymwad.
- 1.16 Mae erthygl 13 y Siarter yn ymwneud â 'Bywyd Economaidd a Chymdeithasol' ac mae'n rhwymo Llywodraeth y DU (ac felly Llywodraeth Cymru):

'i sicrhau bod cyfleusterau gofal cymdeithasol megis ysbytai, cartrefi ymddeol a hosteli yn cynnig y posibilrwydd o dderbyn a thrin yn eu hiaith eu hunain bersonau sy'n defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol ac sydd angen gofal oherwydd afiechyd, henaint neu am resymau eraill' (erthygl 13).

- 1.17 Fodd bynnag, dangosodd yr adroddiad monitro diweddaraf gan COMEX¹ (Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop) yn 2010 fod llawer o waith eto i'w gyflawni. Gwnaeth yr argymhelliad a ganlyn:

'...bod awdurdodau y Deyrnas Unedig... yn cymryd camau pendant i sicrhau cynnydd pellach yn y defnydd o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.'

(vi) Fy iaith, fy iechyd: Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol

- 1.18 Cyhoeddwyd *Fy iaith, fy iechyd* gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 10 Mehefin 2014. Cynhaliwyd yr ymchwiliad i'r sector gofal sylfaenol gan mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i lawer o aelodau'r cyhoedd â'r system gofal iechyd. Felly, mae'n bwysig bod gwasanaethau Cymraeg digonol ar gael yn y sector hwn. Bydd angen i fyrddau iechyd sicrhau, wrth gomisiynu gwasanaethau, bod darpariaeth ddigonol ar gael a'u bod yr un pryd yn rhoi cyhoeddusrwydd i leoliad y gwasanaethau hyn.

Arfer Da

Er mwyn darparu gwasanaethau yn Gymraeg anogodd meddygfa Meddygon Teulu ei staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg a datblygodd system gyfrifiadurol oedd yn cofnodi dewis iaith cleifion.

¹ COMEX (Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop) 2010

(vii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1.19 Ym mis Ebrill 2015 daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfraith yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae un o'r nodau hyn yn anelu at sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Bydd cyrraedd y nodau a eglurwyd yn *Mwy na geiriau....* nid yn unig yn cyfrannu at y nod hon drwy sicrhau y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gynyddol ac yn ffynnu yn ein cymunedau ond bydd hefyd yn arwain at welliant mewn gofal.

(viii) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 1.20 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau i helpu pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau unigolion yn hanfodol bwysig wrth helpu pobl i gael llesiant. I nifer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen greiddiol i'w gofal. Mae diffiniad y Ddeddf o lesiant yn cynnwys 'sicrhau hawliau a hawlogaethau'. I siaradwyr Cymraeg, bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau yn golygu gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chyfrannu at eu gofal fel partneriaid cyfartal.
- 1.21 O ganlyniad i'r Ddeddf, disgwylir i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad canlyniadau llesiant i'w cyflawni ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth ac ar gyfer gofalwyr sydd angen cymorth, mae hyn yn cynnwys a yw pobl yn gallu derbyn gofal a chymorth yn yr iaith Gymraeg os mai dyna yw eu dewis.
- 1.22 Mae'r Codau Ymarfer a gynhyrchir o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hymgorffori i fewn i gynllunio a darparu gwasanaethau, a bod gwasanaethau yn cael eu cynnig yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt (sef y Cynnig Rhagweithiol).

(ix) Gofal Iechyd Darbodus

- 1.23 Bydd cyflawni *Mwy na geiriau....* hefyd yn gymorth i newid y diwylliant fel sydd ei angen i ddarparu Gofal Iechyd Darbodus. Ar hyn o bryd, canlyniad darparu gwasanaethau Cymraeg yn anghyson yw bod gallu siaradwyr Cymraeg i gyfathrebu gyda darparwyr gwasanaeth yn eu hiaith eu hunain yn aml yn cael ei beryglu. Mae'r rhwystr iaith sy'n bodoli rhwng siaradwyr Cymraeg a darparwyr gwasanaethau yn achosi anawsterau clir wrth ddarganfod anghenion pobl. Wrth gyflawni *Mwy na geiriau....*, caiff y rhwystr iaith hwn ei ddileu. Bydd hyn yn helpu darparwyr gwasanaethau i fodloni egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, sef 'peidio â gwneud niwed' a 'chynnal yr ymyriad lleiaf sy'n ofynnol', gan y bydd pobl wedi gallu mynegi eu hanghenion, eu symptomau a'u problemau wrth ddarparwyr gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain a bydd anghenion pobl yn cael eu deall yn gyfan gwbl.



Rydym ni'n derbyn nifer o wasanaethau yn Gymraeg, er enghraifft, gan ein meddyg teulu, ein gweithiwr cymdeithasol a'r holl wasanaethau sy'n seiliedig ar addysg. Yn yr holl wasanaethau, mae modd cynnwys X ein mab yn llawn ym mhob trafodaeth; mae'n gallu dweud ei farn yn glir a gall y gweithiwr proffesiynol ddod i'w adnabod fel unigolyn

– Profiad defnyddiwr

(x) Datganiad o Hawliau Pobl Hy'n yng Nghymru

- 1.24 Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad o Hawliau Pobl Hy'n yng Nghymru sy'n dod â'r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn fyw i bobl hy'n yng Nghymru. Yn y Datganiad, eglurir bod gan bobl hy'n yr hawl i ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt i gyfathrebu. Pan fo siaradwyr Cymraeg yn dymuno ymgysylltu â gwasanaethau ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Gymraeg, dylent fod yn rhydd i wneud hynny.

(xi) Deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant

- 1.25 Mae yna nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol megis Deddf Plant 1989 a 2004 yn diogelu hawliau plant. Mae hawliau ieithyddol plant yn cael eu cryfhau gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n rhoi effaith bellach yng Nghymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Confensiwn yn diogelu hawliau plant i ddefnyddio eu hiaith eu hunain. Gan mai dim ond Cymraeg mae llawer o blant Cymraeg eu hiaith yn gallu siarad (yn enwedig plant ifanc), mae'r fframwaith strategol hwn yn nodi plant a phobl ifanc fel grŵp sydd angen dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Lle mae plant neu bobl ifanc eisiau neu angen eu gwasanaethau wedi'u darparu yn Gymraeg, dylid eu darparu.

Adeiladu Ar Mwy na geiriau....

- 2.1 Pan lansiwyd *Mwy na geiriau....* yn 2012, dywedai mai taith fyddai'r broses o gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n amlwg na chafodd pob un o'r camau yn y fframwaith strategol cyntaf eu gweithredu yn llwyddiannus bob amser, neu, os cawsant eu gweithredu, nad ydynt bob amser wedi'u gweithredu'n gyson ledled Cymru. O gofio bod y weledigaeth wreiddiol, oedd yn ffurfio sylfaen y fframwaith strategol cyntaf, yn dal yr un fath i raddau helaeth, mae'r camau hyn wedi cael eu cario ymlaen i gynllun gweithredu y fframwaith strategol olynol hwn.
- 2.2 Ochr yn ochr â'r angen i gario rhai o'r camau gweithredu ymlaen o'r strategaeth flaenorol, bu newidiadau hefyd yn y polisi a'r tirwedd deddfwriaethol, er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ymchwiliad *Fy Iaith, Fy Iechyd* i'r ddarpariaeth Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol a Safonau'r Gymraeg. Mae'r rhain i gyd wedi gwneud fframwaith strategol olynol yn angenrheidiol. Mae'r fframwaith strategol olynol hefyd yn adlewyrchu'r angen i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn sicrhau bod byrddau ieched ac awdurdodau lleol yn parhau i ganolbwyntio ar *Mwy na geiriau....* a'u bod yn deall yn glir pa gamau sydd raid iddynt eu cymryd ac erbyn pryd.
- 2.3 Mae'n amlwg bod yna lawer o ymrwymiad i wireddu gweledigaeth *Mwy na geiriau....*, ond mae angen gwneud mwy i wneud y defnydd gorau o sgiliau Cymraeg presennol y gweithlu a buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol a throi egwyddor y Cynnig Rhagweithiol yn realiti. Gall mabwysiadu strategaeth gynllunio gweithlu dwyieithog fod o gymorth i ddileu unrhyw ansicrwydd ynghylch yr iaith Gymraeg mewn recriwtio, a galluogi sefydliad i ymdrin â sgiliau iaith yn gadarnhaol, yn wrthrychol ac yn gyfreithlon.² Yn dilyn y sylfaen a osodwyd gan y strategaeth *Mwy na geiriau....* gyntaf, mae cynllun gweithredu'r fframwaith strategol olynol hwn wedi'i atgyfnerthu â chamau newydd a diwygiedig er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am ei weithredu, ar draws ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, yn gallu deall yn glir beth sydd ei angen i wireddu gweledigaeth *Mwy na geiriau....*

2 Recriwtio: Ystyried y Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

- 2.4 Nod y fframwaith strategol olynol hwn yn y pen draw yw sicrhau ein bod yn cyrraedd pwynt lle rydym wedi prif ffrydio'r Gymraeg i bron bob agwedd ar fusnes GIG Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn cynnwys cydnabod bod llawer o bobl sy'n agored i niwed, megis pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu strôc, hefyd yn colli eu hail iaith, ac mai Cymraeg yw'r unig iaith y mae llawer o blant bach yn ei siarad.



Roedd pawb yn siarad Cymraeg; roeddwn yn medru siarad â nhw fel pe bawn yn siarad â'm teulu adref... I mi, mae medru siarad Cymraeg yn fy helpu i wella.

– Profiad defnyddiwr

Llywodraethu a Phartneriaeth

- 2.5 Yn ogystal â bod wedi cyflawni swyddogaeth gynghori hollbwysig wrth ddatblygu'r fframwaith strategol dilynol hwn, bydd Grŵp Gweithredu *Mwy na geiriau....* a Thasglu'r Gymraeg wrth fonitro a Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol mewn monitro sut y mae'n cael ei weithredu.
- 2.6 Bydd Grŵp Implementeiddio *Mwy na geiriau....*, fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r sectorau fu'n ymwneud â gweithredu *Mwy na geiriau....*, yn fforwm i roi adborth i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu'r fframwaith strategol. Bydd gan y grŵp hefyd, gyda chymorth rheolwr implementeiddio'r strategaeth, rôl allweddol mewn nodi meysydd o fewn y fframwaith strategol, fydd efallai yn fwy heriol i'w gweithredu, a cheisio gweithio drwyddynt. Rhan greiddiol hefyd o waith y grŵp fydd darparu adroddiadau cynnydd ar weithredu'r fframwaith strategol i Dasglu'r Gymraeg mewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 2.7 Bydd Tasglu'r Gymraeg mewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn goruchwylio gweithrediad y fframwaith strategol *Mwy na geiriau....* gan GIG Cymru, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau eraill drwy ddadansoddi a chraffu ar adroddiadau cynnydd, a roddir iddo gan Grŵp Implementeiddio *Mwy na geiriau....*

Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd

- 3.1 Mae cryfhau'r gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn gyfrifoldeb llawer o sefydliadau. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog o ran gosod y cyfeiriad strategol, ond sefydliadau GIG Cymru, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau eraill (megis sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch) fydd yn y pen draw yn atebol am eu cyfrifoldebau i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu sy'n berthnasol i'w sefydliad.
- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o bwysleisio pwysigrwydd perchnogaeth, ymrwymiad ac atebolrwydd dros y rhaglen gan ei phrif randdeiliaid. I'r diben hwn, nod cynllun gweithredu'r fframwaith strategol hwn yw rhoi eglurder ynglŷn â'r hyn y mae'n ofynnol ei gyflawni, y corff sy'n gyfrifol am gyflawni'r cam gweithredu ac amserlen ar gyfer cyflawni.
- 3.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei chyfrifoldebau i osod y cyfeiriad strategol drwy ddarparu cyfarwyddyd ar faterion Cymraeg i'r sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mewn dogfennau polisi cenedlaethol. I'r diben hwnnw, bydd canllaw'r Cynllun Tymor Canol Integredig ar gyfer GIG Cymru yn rhoi cyfarwyddyd penodol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i Gynlluniau Tymor Canol Integredig ei gynnwys o ran yr iaith Gymraeg. Ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Cod Ymarfer Cyfarwyddwyr wrthi'n cael ei gyhoeddi. Bydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiadau blynyddol fydd yn rhoi diweddariad ar y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg. At hynny, bydd amrywiol strategaethau gwahanol eraill gan y Llywodraeth, megis y Cynllun Ansawdd, yn ailddatgan pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn Gymraeg.
- 3.4 Bydd rhaid i adrannau gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau GIG Cymru gynllunio a bod yn atebol am ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn eu meysydd eu hunain, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol a'r trydydd sector. Mae'r fframwaith strategol hwn yn seiliedig ar wella ansawdd y gofal a ddarperir ac felly bydd hefyd yn arbennig o berthnasol i'r Colegau Brenhinol, cyrff proffesiynol a'r sectorau addysg bellach ac uwch.

3.5 Bydd y systemau monitro ar gyfer y fframwaith strategol yn seiliedig ar gasgliad o egwyddorion a fydd yn gwneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar brofiadau pobl o wasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg. Caiff yr adborth hwn ei goladu drwy ddefnyddio'r arolygon cleifion presennol
- Caiff ei brif ffrydio i systemau monitro sydd eisoes yn bodoli
- Bydd yn asio â mecanweithiau adrodd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol a Safonau'r Gymraeg sydd i ddod.

(i) Y Cynnig Rhagweithiol

3.6 Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn parhau i fod yn rhan annatod a chanolog o'r fframwaith strategol hwn. Mae gwneud Cynnig Rhagweithiol yn golygu ymddwyn mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd craidd GIG Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol, sef trin pawb ag urddas a pharch yn ogystal â darparu gwasanaeth diogel. Ystyr y term Cynnig Rhagweithiol yn syml yw'r canlynol:

- Darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano a chreu newid mewn diwylliant, sy'n symud y cyfrifoldeb oddi ar yr unigolyn i ofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae darparu gwasanaeth, sy'n canolbwyntio ar y claf, yn sylfaenol i'r Cynnig Rhagweithiol.
- Mae gwneud Cynnig Rhagweithiol yn golygu peidio â chymryd yn ganiataol bod pawb sy'n siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg beth bynnag. Mae'n sicrhau bod pobl Cymraeg eu hiaith yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy ofyn iddynt pa iaith ydy'r gorau ganddynt a gweithredu ar hynny.
- Mae gwneud Cynnig Rhagweithiol hefyd yn ymwneud â chreu'r amgylchedd cywir lle mae pobl yn teimlo wedi'u grymuso ac yn hyderus y bydd eu hanghenion yn cael eu bodloni.

3.7 Bydd rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a staff eraill a gyflogir ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, p'un a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan GIG Cymru neu awdurdodau lleol, neu yn cael ei gomisiynu ganddynt, yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ofal yn Gymraeg i bobl. Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn cymryd y cyfrifoldeb arweiniol am hyn.



Rydw i wedi gwneud y pwynt o'r dechrau; gawn ni wasanaethau yn Gymraeg, os gwelwch yn dda? Wedi dweud hynny, rydym yn tueddu i orfod codi'r pwynt eto ar bob cam yn y broses.

– Profiad defnyddiwr

(ii) Cyflawni amcanion y fframwaith strategol hwn

- 3.8 Er mwyn cyflawni camau gweithredu'r fframwaith strategol hwn, mae 7 o amcanion allweddol wedi'u nodi ar gyfer eu cyflawni. Mae pob amcan yn ymwneud â maes allweddol, lle mae angen cymryd camau er mwyn darparu'r gwasanaethau o safon uchel y mae siaradwyr Cymraeg yn eu haeddu. Mae'r fframwaith strategol olynol hwn yn ceisio sicrhau dull integredig o ddarparu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. I'r diben hwn, datblygwyd un cynllun gweithredu sengl ar gyfer y ddau sector yn hytrach na dau fel gyda'r fframwaith strategol cyntaf. At hynny, i adlewyrchu'r meddylfryd presennol o integreiddio ym mholisi iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae cynllun gweithredu'r fframwaith strategol olynol hwn yn cynnwys mwy o ffocws ar ganlyniadau i bobl er mwyn sicrhau y gall pobl Cymru ddeall yn glir yr hyn y bydd cyflawni'r fframwaith strategol hwn yn ei olygu iddynt.

Amcan 1: Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol

- 3.9 Er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn y fframwaith hwn, rhaid dangos arweinyddiaeth ar draws pob lefel yn unrhyw sefydliad. Mae angen dull cyson gan bob haen o bob gwasanaeth i beri newid a gwelliant parhaus. Mae gan uwch aelodau o staff gyfrifoldeb i sefydlu diwylliant cefnogol, fydd yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i siaradwyr Cymraeg drwy gyfeiriad polisi, prosesau recriwtio, cynllunio'r gweithlu a rhaglenni hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. *Mae Mwy na geiriau....* yn credu bod gan reolwyr gwasanaethau gyfrifoldeb i sicrhau y gweithredir hyn yn y gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- 3.10 At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yr holl ddogfennau polisi a strategaeth cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud cyfeiriadau penodol at y cyfrifoldeb i ddarparu gofal a chymorth yn Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Comisiynydd y Gymraeg wrth greu'r Safonau Iaith Gymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod darparu gofal yn Gymraeg yn cael ei brif ffrydio i waith y gynghrair arweinyddiaeth genedlaethol sy'n darparu cyngor i Weinidogion ar weithredu'r ddeddfwriaeth.
- 3.11 Dylai fod gan gyrff proffesiynol swyddogaeth hefyd i hyrwyddo'r cyswllt rhwng gwasanaethau Cymraeg a chanlyniadau gofal o safon uchel.

Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil

- 3.12 Heb broses effeithiol a gorfodol o gasglu data ystyrllon a chyfredol ar anghenion y gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac ar sgiliau iaith y gweithlu, mae'n anodd iawn i sefydliadau gynllunio eu gweithlu mewn modd sy'n cyfarfod ag anghenion y bobl y maent yn eu gwasanaethu. Hefyd, mae diffyg data ynghylch siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu nid yn unig yn rhwystro cynllunio gweithlu ond hefyd yn cyfyngu ar y broses o ddarparu hyfforddiant a chymorth addas i alluogi'r gweithlu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae angen i gynlluniau gweithlu fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion iaith cymunedau a data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn ateb anghenion pobl Cymraeg eu hiaith.
- 3.13 Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwyr GIG Cymru yn ymwybodol bod rhaid i systemau data mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol alluogi'r gwasanaeth i weithredu'n ddwyieithog er mwyn cyfarfod ag anghenion siaradwyr Cymraeg. Rhoddir blaenoriaeth i'r tri maes canlynol
- Rhoddir system ar waith i gofnodi sgiliau Cymraeg staff a defnyddir y wybodaeth hon ar gyfer cynllunio'r gweithlu.
 - Dylai cofnodion cleientiaid a chleifion ddangos yn glir beth yw dewis iaith y dinesydd
 - Rhaid i gofnodion cleientiaid a chleifion gynnwys adrannau i alluogi staff i gofnodi pryd y bydd rhaid gwneud Cynnig Rhagweithiol

Amcan 3: Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu a Chontractio a Chynllunio'r Gweithlu



Dydyn ni ddim am gael byd delfrydol lle mae pawb yn siarad Cymraeg ond os bydd gan y tîm meddygol rywun sy'n siarad Cymraeg bydd hynny'n gymorth.

– Profiad defnyddiwr

- 3.14 Mae'r fframwaith strategol wedi nodi nifer o feysydd lle mae cryfhau'r gwasanaethau Cymraeg yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth teg. Mae'r cyfrifoldeb am hyn yn gorffwys ar yr holl adrannau ar draws byrddau ieuchyd, ymddiriedolaethau a gwasanaethau cymdeithasol.
- 3.15 Mae gan gynllunio gweithlu a datblygu sefydliadol ran ganolog i'w chwarae o

ran cyflawni'r fframwaith strategol hwn, er enghraifft:

- Darparu hyfforddiant i staff mewn perthynas â gwneud y Cynnig Rhagweithiol a phrif ffrydio hyn i raglenni ymsefydlu.
- Arwain ar ddatblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, fydd yn nodi anghenion iaith y sefydliad.
- Rhaglenni hyfforddiant i gael eu cynnig i staff er mwyn cynyddu gallu'r staff i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i ganolbwyntio ar annog staff i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt a chynyddu hyder y staff i ddefnyddio'r sgiliau hynny.
- Mae sgiliau Cymraeg wedi eu prif-ffrydio i gymwyseddau craidd y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau a dylid adlewyrchu hyn mewn trafodaethau yn arfarniadau staff blynyddol.
- Mapio'r ddarpariaeth bresennol a'r gallu i wneud Cynnig Rhagweithiol o fewn y gwasanaethau.

Arfer Da

Er mwyn ateb y galw am wasanaethau Cymraeg gan gleifion, crëwyd ward i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r ward yn cael ei staffio gan staff clinigol sydd â sgiliau Cymraeg a defnyddir y logo 'Iaith Gwaith' i hybu'r gwasanaethau sydd ar gael.

Sylweddolodd cartref preswyl yr angen i ddarparu gweithgareddau yn Gymraeg a rhoddwyd cynllun at ei gilydd i sicrhau bod staff oedd yn siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gweithgareddau hyn.

- 3.16 Bydd Prif Weithredwyr GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau y caiff anghenion Cymraeg pobl eu hystyried yn benodol wrth gwblhau asesiad poblogaeth ar y cyd ac wrth gomisiynu neu gontractio gwasanaethau gan y sector annibynnol neu'r trydydd sector gan gynnwys modelau dielw. Mae enghreifftiau yn cynnwys gofal preswyl neu nyrsio, eiriolaeth, gofal cartref, gwasanaethau y tu allan i oriau, gwasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau ymyrraeth gynnar / ataliol. Caiff y Gymraeg ei hystyried mewn manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau arian grant. Pan fydd gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cael eu comisiynu ar sail genedlaethol e.e. Meddygon Teulu, Deintyddion, Optegwyr a Fferyllfeydd, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ac enghreifftiau o arfer gorau ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gofal i hwyluso'r broses hon.

Amcan 4: Hybu ac Ymgysylltu

- 3.17 Er mwyn galluogi pobl i wybod pwy sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, mae dynodwyr gweledol yn bwysig iawn. I'r diben hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu a dosbarthu dynodwyr, tebyg i'r logo 'laith gwaith' er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i adnabod staff gofal sy'n dysgu Cymraeg. Yn ogystal â helpu pobl, bydd hyn yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- 3.18 Bydd sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol hefyd yn hyrwyddo defnydd o'r logo 'laith gwaith' ar wisgoed staff, llinynnau gwddf a llofnodion e-bost i alluogi pobl i adnabod siaradwyr Cymraeg a dechrau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.19 At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) i greu ac i ddiweddarau'n barhaus adnodd gwybodaeth ar-lein ar gyfer yr holl staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol er mwyn eu cynorthwyo i wneud y Cynnig Rhagweithiol. Bydd yr adnodd hwn yn cynnwys deunyddiau hyfforddi ac yn cyfeirio staff at ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.
- 3.20 Er mwyn cynorthwyo staff i gyflawni amcanion y fframwaith strategol hwn, mae'n bwysig bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu cyfathrebu a rhannu arfer da. Bydd Swyddogion / Hyrwyddwyr y Gymraeg yn GIG Cymru ac mewn awdurdodau lleol yn rhannu'r arferion gorau ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg gyda'r holl staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal, yn enwedig penaethiaid gwasanaethau a rheolwyr gwasanaethau.

Amcan 5: Addysg Broffesiynol

- 3.21 Er mwyn i'r gweithlu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol allu cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu lefelau digonol o sgiliau Cymraeg a sensitifrwydd. Bydd buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol drwy gynllunio strategol a dyrannu adnoddau'n ymatebol mewn addysg cyn-gofrestru yn sicrhau'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau lle mae fwyaf eu hangen.
- 3.22 A derbyn y ffordd y caiff addysg gofal iechyd ei chomisiynu ar hyn o bryd yng Nghymru, byddai partneriaeth gryfach rhwng rhanddeiliaid allweddol yn ei gwneud yn bosibl datblygu fframwaith mwy cydlynol er mwyn gwella'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ar draws y sector. Mae sefydlu datblygiad sgiliau Cymraeg fel rhan o gynllunio strategol y gweithlu ac addysg ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yn gam sylfaenol yn y cyfeiriad hwn. Bydd y cynlluniau tymor canol integredig a gynhyrchir gan y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yn ystyried eu gofynion presennol a'u hanghenion i'r dyfodol ar gyfer gweithlu sy'n siarad Cymraeg fel sail i'r broses gomisiynu addysgol.
- 3.23 Mae addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gweithwyr cymdeithasol fod wrth ganol yr hyfforddiant, a rhaid i'r cyflenwad hyfforddiant fod yn seiliedig ar gynllunio'r gweithlu. Darperir hyfforddiant drwy bartneriaethau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a chyflogwyr, gyda'r holl raglenni'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Gofal. Gall y Cyngor Gofal ddefnyddio ei swyddogaeth yn rheoleiddio addysg gweithwyr cymdeithasol i sicrhau bod gan weithlu'r dyfodol y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sy'n berthnasol i ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:
- Ceisio cynyddu'r cyflenwad o siaradwyr Cymraeg i ateb anghenion penodol y gweithlu.
 - Gwneud darpariaeth addysgol ar ymwybyddiaeth iaith yn ofynnol ynghyd â'r Cynnig Rhagweithiol a dealltwriaeth ehangach o'r cyd-destun Cymreig ymysg yr holl weithwyr cymdeithasol newydd.

Mae cyflawni hyn yn gofyn am strategaeth i:

- Ymestyn ymarfer addysg Gymraeg a dwyieithog mewn paratoad ar gyfer ymarfer mewn amgylchedd dwyieithog

- 3.24 Bydd Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, Cyngor Gofal Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch yn sicrhau bod addysg ar lefel cyn-cofrestru i weithwyr proffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac yn ffocysu yn benodol ar y ddeddfwriaeth a'r polisi sydd wrth gefn darparu gwasanaethau Cymraeg ynghyd ag egwyddor, defnydd ac effaith y Cynnig Rhagweithiol. Dylai amodau cytundebau gyda Sefydliadau Addysg Uwch ddangos ymgysylltiad â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar gynllunio gweithlu ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yn lleol. Dylai'r rhain gynnwys darpariaeth addysgol ar ymwybyddiaeth iaith a'r cynnig rhagweithiol, recriwtio siaradwyr Cymraeg i ateb anghenion penodol y gweithlu, ac ymrwymiad i ymestyn addysg gyfrwng-Cymraeg / dwyieithog mewn paratoad ar gyfer ymarfer mewn amgylchedd dwyieithog. Gall pobl wedyn fod yn dawel eu meddwl bod cyrff addysg a chyrff proffesiynol yn sefydlu anghenion Cymraeg y boblogaeth yn y gwaith o gynllunio a darparu'r cwricwlwm.



Rydw i'n meddwl yn Gymraeg ac wedyn yn siarad yn Saesneg. Pan fyddwch chi mewn cymaint o boen, mae arnoch chi eisiau dweud yr hyn sy'n dod yn naturiol i chi.

– Profiad defnyddiwr

Amcan 6: Y Gymraeg yn y gweithle

- 3.25 Mae'r fframwaith strategol yn sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau lle mae galluedd a chymwyseddau Cymraeg y staff wedi eu sefydlu yng ngweithdrefnau adnoddau dynol a recriwtio pob sefydliad. Bydd GIG Cymru ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu strategaeth recriwtio a dargadw effeithiol i sicrhau bod gan dimau staff y gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cyflogwyr y sector gofal cymdeithasol yn cynllunio anghenion dyfodol eu gweithlu. Bydd Cyngor Gofal Cymru yn sicrhau bod y Gymraeg yn bresennol wrth gynllunio'r gweithlu ar lefel strategol. Yn ogystal, bydd Cyngor Gofal Cymru yn sicrhau bod y data a gasglir ar weithlu y sector gofal cymdeithasol yn cynnwys sgiliau Cymraeg y staff er mwyn bwydo'r wybodaeth yma i fewn i gynllunio'r gweithlu.
- 3.26 Bydd adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn asesu swyddi gweigion ar gyfer yr angen am sgiliau Cymraeg, gan gymryd anghenion y boblogaeth a wasanaethir, y sefydliad a'r tîm gwasanaeth i ystyriaeth. Bydd yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth a gynhyrchir o ganlyniad i adran 14 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dylanwadu ar y broses hon. O ganlyniad i hyn, bydd awdurdodau lleol a Byrddau

lechyd Lleol yn cynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys adnabod y gwaith sydd angen ei wneud i ddarparu'r amrediad a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn ateb anghenion gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff swyddi mewn gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol eu hysbysebu a'u llenwi yn unol â chanllawiau recriwtio Comisiynydd y Gymraeg.

- 3.27 Bydd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn asesu swyddi gweigion ar gyfer yr angen am sgiliau Cymraeg, gan gymryd anghenion y boblogaeth a wasanaethir, y sefydliad a'r tîm gwasanaeth i ystyriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn prif ffrydio'r angen i ystyried y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol gan staff i mewn i brosesau recriwtio GIG Cymru.
- 3.28 Bydd datblygu sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu yn elfen bwysig yn llwyddiant darparu'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd Swyddogion a Hyrwyddwyr y Gymraeg yn GIG Cymru ac yn y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio i gynyddu hyder y gweithlu a'u gallu i ddarparu gofal yn Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant iaith ac adnoddau eraill i wella hyder y staff wrth ddarparu gofal yn Gymraeg. Caiff hyn ei hybu ymhlith y staff gan Brif Weithredwyr a Byrddau byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyfforddiant staff hefyd yn cefnogi datblygiad y staff i ddarparu gofal yn Gymraeg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle.



Pan oedd rhai nyrsys yn gofalu amdano fe fydden nhw'n aml yn dweud na allen nhw siarad llawer o Gymraeg neu nad oedd eu Cymraeg yn dda iawn. Ond nid lefel eu sgil a'u hyder sy'n dod gyntaf yn fy marn i. Fe fyddwn i'n eu hannog i ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddyn nhw a gwybod ei fod yn mynd i fod yn ddigon da i wneud i fy hogyn bach i deimlo'n fwy cartrefol yn yr ysbyty.

– Profiad defnyddiwr

Arfer da

Mae gan un awdurdod lleol gwrs Cymraeg wedi ei sefydlu ar gyfer gofalmwyr sy'n gweithio gyda'r henoed. Nod y cwrs hwn yw galluogi'r staff i gynnal sgwrs gyffredinol yn Gymraeg gyda phobl.

Amcan 7: Rheoleiddio ac Arolygu

- 3.29 Mae swyddogaeth yr arolygiaethau yn hanfodol os yw angen iaith a newid diwylliannol tuag at y Cynnig Rhagweithiol yn mynd i gael eu gwireddu. Drwy eu gwaith byddant yn asesu profiad pobl ac yn canfod p'un a gawsant ofal ieithyddol addas neu beidio. Bydd hyn o gymorth i Lywodraeth Cymru fonitro'r modd y mae'r cynllun gweithredu yn cael ei gyflawni gan y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a bydd yn gallu mesur y gwahaniaeth yn y ddarpariaeth uniongyrchol i ddefnyddiwr y gwasanaeth.
- 3.30 Mae rôl benodol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau y darperir gwasanaethau Cymraeg fel rhan o'u trefn arolygu bresennol. Bydd yn hanfodol iddynt adrodd ar wasanaethau Cymraeg er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol a fydd yn sail i waith yn y dyfodol. Mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i wneud i hyn ddigwydd, a sicrhau bod pobl ar draws Cymru yn derbyn gwasanaethau o ansawdd sy'n cyfarfod â'u hanghenion.

(iii) Arolygiaethau

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

- 3.31 Mae AGIC yn arolygu GIG Cymru a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau. Maent yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae'r rheiny a all fod mewn sefyllfaoedd agored i niwed yn cael eu diogelu ac yn nodi'r mannau lle mae gwasanaethau yn gwneud yn dda. Yn ogystal maent yn tynnu sylw at y meysydd lle mae angen gwella gwasanaethau. Bydd AGIC yn sicrhau bod y rhaglen arolygu yn prif ffrydio cyfrifoldebau sefydliadau i gynllunio a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a bydd egwyddor y Cynnig Rhagweithiol hefyd yn rhan o'r arolygiadau.
- 3.32 Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u cynnwys yn yr holiaduron ar gyfer Arolygiadau Urddas a Hanfodion Gofal:
- A ofynnwyd ichi ym mha iaith y byddai orau gennych gael cyfathrebu?
 - Pa un yw eich dewis iaith?
 - Ydy eich anghenion iaith wedi cael eu hateb?

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

- 3.33 Mae AGGCC yn rheoleiddio dros 6000 o wasanaethau a lleoliadau, o warchodwyr plant i gartrefi ar gyfer pobl hŷn. Maent hefyd yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac yn cynnal adolygiadau cenedlaethol. Bydd AGGCC yn cynnwys amcanion y fframwaith strategol wrth iddi ddatblygu methodolegau arolygu, prosesau ac adroddiadau newydd. Bydd yn buddsoddi mewn systemau TG, fydd yn casglu data am iaith, a bydd yn sicrhau y caiff nodau cynllun gweithredu'r fframwaith strategol olynol eu hadeiladu i mewn i'r fframwaith newydd ar gyfer arolygiadau awdurdodau lleol.
- 3.34 Bydd AGIC, gan weithio gydag AGGCC lle bo'n briodol, yn cynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth Gymraeg yn erbyn yr amcanion strategol. Bydd hyn yn rhoi man cychwyn ar gyfer datblygu a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Cyngor Gofal Cymru

- 3.35 Mae Cyngor Gofal Cymru, fel y rheoleiddiwr, yn gosod disgwyliadau ar ddarparwyr cyrsiau hyfforddiant gwaith cymdeithasol proffesiynol a bydd yn disgwyl i'r holl raglenni gynnwys hyfforddiant ar ddimensiwn yr iaith Gymraeg. Yn ogystal, disgwylir i ddarparwyr adrodd yn flynyddol ar sgiliau iaith eu myfyrwyr.
- 3.36 Mae'r Cyngor Gofal yn sicrhau bod yr hyfforddiant proffesiynol a roddir i broffesiynau unigol eraill a reoleiddir yn cynnwys hyfforddiant ar ddeall anghenion Cymraeg a darparu'r Cynnig Rhagweithiol.
- 3.37 Yn ystod oes y fframwaith strategol hwn bydd Cyngor Gofal Cymru yn esblygu yn gorff newydd fydd â phwerau a chyfrifoldebau helaethach, fydd yn cynnwys rheoleiddio hyfforddiant gofal cymdeithasol. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau hefyd bod y Gymraeg a'i phwysigrwydd mewn gofal cymdeithasol yn cael ei hintegreiddio'n llawn i hyfforddiant o'r fath.




Gwelsom fod rhai o'r preswylwyr sydd â dementia, pan oeddent wedi blino ac wrth i'w symptomau ddatblygu, yn newid yn ôl i Gymraeg ac weithiau byddai'r staff yn cael trafferth i ateb eu hanghenion.

– Darparwr gwasanaeth

(iv) Monitro gweithrediad y fframwaith strategol

- 3.38 Pan gyhoeddwyd y fframwaith strategol tair blynedd cyntaf yn 2012, fe sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Implementeiddio, oedd yn gyfrifol am ddarparu sylwadau ar y ffordd yr oedd yr amcanion yn cael eu cyflawni. Mae'r grŵp yma wedi darparu cyngor ar gynnwys y fframwaith strategol hwn a bydd yn parhau i fonitro cynnydd drwy gydol y cyfnod y bydd yn cael ei gyflawni.
- 3.39 Byddwn hefyd yn defnyddio amrywiaeth o fesurau eraill i asesu effaith *Mwy na geiriau....* ac, ymhen amser, Safonau'r Gymraeg. Bydd y rhain yn cynnwys asesiadau a gynhelir gan Gynghorau Iechyd Cymunedol o'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd; manylion sut y mae'r gwasanaethau ar hyn o bryd yn ateb anghenion siaradwyr Cymraeg fel y nodir yn adroddiadau blynyddol byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol; archwiliadau gwasanaethau yn y GIG gan gynnwys cwestiynau ynghylch yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu darparu; ac fel rhan o waith arolygu AGGCC ac AGIC.
- 3.40 Disgwylir i Brif Weithredwyr a Chadeiryddion sefydliadau GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos ymrwymiad cadarn i wella gwasanaethau a sicrhau bod angen y Gymraeg yn elfen allweddol o ofal.
- 3.41 Caiff cynnydd ei adolygu hefyd gan Bwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop (COMEX) o dan y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol.
- 3.42 Mae'r fframwaith strategol hwn yn egluro'r camau sydd eu hangen i sicrhau cydraddoldeb i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan roi llais cryfach o lawer iddynt a gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.
- 3.43 Bydd y systemau monitro ar gyfer y fframwaith strategol hwn yn seiliedig ar gasgliad o egwyddorion a fydd yn:
- canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr o'r gwasanaeth;
 - cael eu prif ffrydio i'r systemau monitro sydd eisoes yn bodoli;
 - adrodd yn flynyddol ar gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu
 - adrodd ar gynnydd i Dasglu'r Gweinidog ar y Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.



Amcan 1

Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Bydd pobl yn derbyn gwasanaethau lle mae'n amlwg bod y Gymraeg wedi ei sefydlu mewn polisi cenedlaethol a chynllunio strategol.
- Bydd pobl yn glir ynghylch ymrwymiad pawb sydd mewn swyddi arweiniol ar draws ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau yn ôl angen a dewis iaith.
- Gall pobl fod yn sicr y bydd darparwyr gofal yn y trydydd sector a'r sector annibynnol yn hybu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu drwy ddigwyddiadau diwylliannol.
- Gall pobl fod yn sicr bod arweinwyr ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn deall pwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol ac yn sicrhau ei fod yn cael ei estyn i bawb, yn enwedig i'r grwpiau a adnabuwyd sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau Cymraeg.

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisiâu ac o ran Gweithredu.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
1.1	Yr holl ddogfennau polisi a strategaeth ym maes ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol (yn cynnwys Papurau Gwyn a Gwyrdd yn amlinellu cynigion deddfwriaethol) i gyfeirio'n benodol at y cyfrifoldeb i ddarparu ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017
1.2	Rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n cefnogi gwelliant, trawsnewid a rhannu arfer gorau i gynnwys yr angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.	Llywodraeth Cymru Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru 1,000 o Fwydau a Mwy	Erbyn Mawrth 2017

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
1.3	Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i gadw/ penodi uwch swyddog fel Hyrwyddwr y Gymraeg, a Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i amddiffyn a hybu swydd y Swyddog Iaith Gymraeg o fewn eu sefydliadau.	Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Prif Weithredwyr GIG Cymru	Erbyn Mawrth 2017
1.4	Darparu gwasanaethau yn Gymraeg i gael ei brif ffrydio i waith y Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig)	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017
1.5	Bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, yn cydnabod yr angen i ddarparu gofal yn Gymraeg ac yn rhannu arfer gorau wrth wneud ei waith o sicrhau gwelliannau a darparu cyngor.	Llywodraeth Cymru Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	Erbyn Mawrth 2017
1.6	Sefydliadau GIG Cymru ac ADSS Cymru i weithio i godi proffil pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg mewn digwyddiadau cenedlaethol.	Llywodraeth Cymru Prif Weithredwyr GIG Cymru Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru	Erbyn Mawrth 2017
1.7	Cynghorau Iechyd Cymunedol i brif ffrydio asesiad o'r gwasanaethau Gymraeg a ddarperir yn y gwasanaethau iechyd i mewn i'w gwaith.	Llywodraeth Cymru Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru	Erbyn Mawrth 2018
1.8	Sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol i hybu ymwybyddiaeth o anghenion Cymraeg pobl a rhannu arfer gorau ac adnoddau ar ddarparu gofal yn Gymraeg ymhlith darparwyr gofal.	Holl sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol	Erbyn Mawrth 2017
1.9	Y Cynnig Rhagweithiol a'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'w gynnwys mewn arweiniad cenedlaethol ar asesiad, statudol ac anstatudol hefyd. Mae hyn yn cynnwys asesiad clinigol proffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018
1.10	Bydd Fframwaith Cyflawni a Deilliannau'r GIG yn cydnabod yn glir bod darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddeiliant perthnasol i bob parth o fewn y fframwaith.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018

Amcan 2

Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Bydd pobl yn derbyn gwasanaethau dwyieithog sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth gadarn am angen/dewis iaith.
- Bydd pobl yn gwybod bod y gwasanaethau iechedd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gofal cymdeithasol y maent yn ei dderbyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ynghylch pwysigrwydd bodloni angen/dewis iaith.
- Gall pobl fod yn sicr y defnyddir cofnodion a systemau data electronig i gasglu gwybodaeth ynglŷn â'r Cynnig Rhagweithiol, sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n derbyn gwasanaethau.
- Bydd gan bobl lais a gallant ddylanwadu ar ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.
- Bydd pobl yn derbyn gwasanaethau lle mae galluoedd a chymhwysedd Cymraeg y staff wedi eu sefydlu yn y gweithdrefnau adnoddau dynol a recriwtio.
- Drwy ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol bydd pobl yn cael eu trin â pharch ac urddas.

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Cyflenwi Gwasanaethau, o ran Gweithredu a Chadw Cofnodion.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
2.1	Dylai'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol fapio'r ddarpariaeth a'r gallu presennol i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar draws yr holl wasanaethau (gan gynnwys gofal sylfaenol). Lle mae'r gallu yn isel, dylid llunio cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu'r gallu. Dylid blaenoriaethu'r gallu i ddarparu Cynnig Rhagweithiol i bobl o fewn y grwpiau a adanbuwyd fel y rhai â'r angen mwyaf am wasanaethau Cymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2017
2.2	Dylai fod gan y gwasanaeth iechedd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol systemau wedi eu sefydlu i gofnodi pan fydd Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei wneud drwy gofnodi anghenion/dewisiadau iaith yng nghofnodion yr unigolyn. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn berthnasol i holl ddarparwyr gwasanaethau gofal eilaidd a sylfaenol.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2017

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
2.3	Ymchwil mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i gryfhau'r sylfaen o dystiolaeth, sy'n dangos y cysylltiad rhwng canlyniadau gofal o safon uchel a gofal sy'n sensitif i anghenion iaith pobl. Dylai ymchwil mewn partneriaeth hefyd weithio i nodi ymyriadau effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau.	Llywodraeth Cymru - Ymchwil i Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yng Nghymru Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Erbyn Mawrth 2019
2.4	Yr holl ddarparwyr gofal cofrestredig i gynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol y byddant yn ei gyhoeddi am lefel y gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr eu gwasanaethau a'u teuluoedd. (Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig)	Llywodraeth Cymru Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	Erbyn Mawrth 2017
2.5	Dylai'r systemau data mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol alluogi'r gwasanaeth i weithredu'n ddwyieithog i gyflawni anghenion siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft: - Dylid casglu a chofnodi sgiliau Cymraeg staff yn electronig (dylid diwygio Cofnod Staff Electronig GIG Cymru i sicrhau bod rhaid i'r holl staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg) - Cofnodion cleientiaid a chleifion i gynnwys adrannau sy'n galluogi'r staff i gofnodi pan fydd 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei wneud a nodi dewis iaith yr unigolyn fel y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol.	Prif Weithredwyr GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol NWIS Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017
2.6	Dylid cynnwys sgiliau Cymraeg y gweithlu a phroffil Cymraeg y gymuned yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan bob adran o'r gwasanaethau cymdeithasol ac IMTP y GIG i ddangos anghenion Cymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2017
2.7	Caiff cydrannau cyrsiau Cymraeg/dwyieithog a ddarperir ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn y sector addysg bellach eu mapio a'u hadolygu. Rhennir y wybodaeth hon gyda byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.	Sefydliadau Addysg Bellach Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Colegau Cymru	Erbyn Mawrth 2017
2.8	Gwasanaeth 111 GIG Cymru i ganfod beth yw dewis iaith pobl a chofnodi hyn i alluogi darparwyr gwasanaethau eraill i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' i bobl.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018

Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu a Chontractio a Chynllunio'r Gweithlu

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Bydd pobl yn sicr bod eu hanghenion a'u dewisiadau iaith yn dylanwadu ar gynllunio, comisiynu a chontractio gwasanaethau ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Bydd pobl yn derbyn gwasanaethau lle mae'r Gymraeg wedi ei sefydlu mewn cynllunio gweithredol a darparu gwasanaethau.
- Bydd pobl yn sicr bod ansawdd y gwasanaethau yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod anghenion Cymraeg yn cael eu bodloni.
- Drwy ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol bydd pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael eu trin â pharch ac urddas yn Gymraeg.
- Bydd pobl yn derbyn gwasanaethau sy'n rhagweld ac yn ymateb i anghenion y bobl sydd eisiau ac sydd angen cyfathrebu yn Gymraeg

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Llundio Polisiâu a Chyflenwi Gwasanaethau.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn
3.1	Caiff yr angen i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg i bobl ei gyfleu i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn GIG Cymru, mewn awdurdodau lleol neu mewn gwasanaethau a gomisiynir (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol).	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2018
3.2	GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i sefydlu proffil Cymraeg eu cymuned (yn seiliedig ar Adroddiad Asesiad y Boblogaeth a gynhyrchir o ganlyniad i adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a defnyddio'r wybodaeth hon fel man cychwyn ar gyfer cynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau y gellir ateb anghenion siaradwyr Cymraeg ac i asesu bob swydd ar gyfer anghenion sgiliau Cymraeg cyn eu hysbysebu.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Llywodraeth Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2017
3.3	Systemau cynllunio a chomisiynu GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, megis cynlluniau gwasanaeth sy'n cael eu cyhoeddi, i gymryd proffil Cymraeg y gymuned (yn seiliedig ar Adroddiad Asesiad y Boblogaeth a gynhyrchir o ganlyniad i adran 14 y Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) i ystyriaeth a sicrhau ei fod wedi ei adlewyrchu wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2017

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn
3.4	Anghenion Cymraeg pobl i gael eu bodloni wrth gomisiynu neu contractio gwasanaethau gan y sector annibynnol neu'r trydydd sector (e.e. gofal preswyl neu nysio, eiriolaeth, gofal cartref, gwasanaethau y tu allan i oriau, gwasanaethau meddygon teulu). Darparu gwasanaethau Cymraeg i'w gynnwys mewn manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau arian grant.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cydwasaethau'r GIG	Erbyn Mawrth 2017
3.5	Y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir mewn gofal sylfaenol i gael eu cryfhau drwy gynnwys y Gymraeg yng nghontractau'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol cenedlaethol, Optegwyr, Fferyllwyr a Deintyddion. Gwneir hyn yn unol ag Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol, <i>Fy Iaith, Fy Lechyd</i> .	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017
3.6	Drwy'r 64 clwstwr gofal sylfaenol, y byrddau iechyd i gynnal dadansoddiad o anghenion Cymraeg y boblogaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a'r cymorth sydd ei angen ar y gweithlu i ddatblygu'r sgiliau o fewn gofal sylfaenol i ateb yr anghenion hynny. Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â chomisiynwyr a darparwyr addysg i adolygu'r trefniadau presennol a nodi pa gamau pellach sydd eu hangen i ddarparu rhaglenni hyfforddiant a all adlewyrchu'r anghenion hyn.	Clystyrau gofal sylfaenol y Byrddau Iechyd Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017
3.7	Penaethiaid gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau i gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg drwy'r staff presennol sy'n siarad Cymraeg. Bydd gwybodaeth am y gallu sydd ei angen yn deillio o Adroddiad Asesiad y Boblogaeth a gynhyrchir o dan adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Lle y canfyddir bylchau yng ngallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg dylai'r rhain fod wedi eu hadlewyrchu yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2017
3.8	Yr Adroddiadau Blynyddol a gyhoeddir gan Fyrdau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud y canlynol: • cynnwys ymrwymiad i ddarparu a datblygu gwasanaethau Cymraeg • ail-gadarnhau pwysigrwydd cyfarfod ag angen Cymraeg fel rhan o asesiad a gofal arferol. • rhoi manylion sut y mae gwasanaethau cyfredol yn cyfarfod ag anghenion siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â chyrraedd targedau a nodir gan y Bwrdd Iechyd, yr Ymddiriedolaeth neu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau gwelliant.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2018

Hybu ac Ymgysylltu

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Bydd pobl yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol a bod yna ymrwymiad gweladwy i ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn ddwyieithog yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt.
- Bydd pobl yn gwybod pwy sy'n medru darparu gwasanaethau ar eu cyfer yn Gymraeg ac sy'n gyfforddus ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg wrth ofalu a darparu triniaeth.
- Bydd pobl yn gallu bod yn sicr y bydd darparwyr gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi rhagweld a chynllunio ar gyfer eu hanghenion Gymraeg.
- Bydd gan bobl lais a gallant ddylanwadu ar ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.
- Drwy ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol bydd pobl yn cael eu trin â pharch ac urddas.

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Cyflenwi Gwasanaethau ac o ran Gweithredu.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
4.1	Arferion gorau mewn darparu gwasanaethau Gymraeg i gael eu rhannu ymhlith yr holl staff sydd â rhan mewn darparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl (penaethiaid a rheolwyr gwasanaethau yn arbennig).	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2018
4.2	Adnodd gwybodaeth ar-lein i gael ei greu i alluogi staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i gael mynediad at ganllawiau a deunyddiau hyfforddi ar ddarparu gwasanaethau Gymraeg i bobl.	Llywodraeth Cymru Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2017
4.3	Caiff defnydd o'r logo 'iaith gwaith' ei hybu ymhlith staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i alluogi pobl i adnabod siaradwyr Gymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
4.4	Caiff y logo 'laith Gwaith', sydd wedi ei wno'n barod ar wisgoedd swyddogol nyrsys, ei ymestyn i broffesiynau eraill o fewn GIG Cymru.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018
4.5	Caiff logo tebyg i'r logo 'laith Gwaith' ei ddatblygu ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Pan fydd wedi cael ei ddatblygu, caiff y logo ei hybu ymhlith staff ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol sy'n dysgu Cymraeg i alluogi pobl i adnabod staff sydd â sgiliau Cymraeg.	Llywodraeth Cymru Comisiynydd y Gymraeg	Erbyn Mawrth 2018
4.6	Rhyngwynebau a meddalwedd Cymraeg (megis Cysgliad) i fod ar gael i staff ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i'w galluogi a'u cynorthwyo i weithio'n ddwyieithog. ³ Dylid ystyried addasu'r systemau presennol i gyrraedd y nod hwn.	Llywodraeth Cymru Prif Weithredwyr GIG Cymru NWIS Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Erbyn Mawrth 2018
4.7	Yr holl adnoddau sydd wedi cael eu datblygu gan Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a allai fod o gymorth i staff ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, i fod ar gael i'r staff i gyd, p'un a ydynt yn fyfyrwyr cyfredol neu beidio.	Sefydliadau Addysg Uwch Darparwyr Addysg Bellach Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Colegau Cymru NWIS Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru	Erbyn Mawrth 2019
4.8	Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â Gyrfa Cymru ynglŷn â diwygio eu porth gwybodaeth ar gyfer gyrfaeodd er mwyn tynnu sylw at yr angen arbennig am siaradwyr Cymraeg mewn gwasanaethau ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol ar y tudalennau gwybodaeth ar gyfer pob proffesiwn yn benodol (er enghraifft: nyrsys, meddygon a gofalwyr).	Llywodraeth Cymru Gyrfa Cymru Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2017
4.9	Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r cyrff proffesiynol perthnasol er mwyn cydweithio i gynllunio sut y dylai eu haelodau ddarparu gwasanaethau Cymraeg.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2017

³ Am ragor o enghreifftiau, dylid cyfeirio at Ganllawiau Technoleg, Gwefan a Meddalwedd Comisiynydd y Gymraeg

Addysg Broffesiynol

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Gall pobl fod yn sicr bod cyrff addysg a chyrff proffesiynol yn deall pwysigrwydd anghenion Cymraeg y boblogaeth a'u bod wedi sefydlu'r rhain yn eu cwricwlwm, eu rhaglenni hyfforddi a'u polisïau.
- Drwy'r gwasanaethau a dderbynnir, bydd pobl yn gwybod bod adrannau hyfforddi iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi prif ffrydio'r Cynnig Rhagweithiol drwy'r holl raglenni addysg.

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Gweithredu.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
5.1	Addysg ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar lefel cyn cofrestru ac ôl-gofrestru i gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar y ddeddfwriaeth a'r polisi sydd wrth gefn darparu gwasanaethau Cymraeg. Dylai hyn gynnwys ymwybyddiaeth o egwyddorion, defnydd ac effaith y Cynnig Rhagweithiol ynghyd ag ystyriaeth o o ddiwygio'r astudiaethau achos a ddefnyddir wrth addysgu cyrsiau gofal iechyd i gynnwys materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.	Llywodraeth Cymru Sefydliadau Addysg Uwch Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2017
5.2	Mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, y byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i archwilio sut y gallai gweithwyr proffesiynol wrth eu gwaith a'r rheiny sy'n dilyn rhaglenni addysg a hyfforddiant yng Nghymru ymgysylltu â'r agenda ehangu mynediad.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018
5.3	Dylai Cynlluniau Tymor Canol Integredig (IMTP) y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau ystyried y gofynion ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol fel sail i strategaeth gweithlu sefydliadau'r GIG a chomisiynu addysg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru	Erbyn Mawrth 2017

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
5.4	Wrth gomisiynu lleoedd ar raglenni addysg a hyfforddiant mewn addysg uwch ar draws yr amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu'r cyfleoedd i'r rhain gael eu darparu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018
5.5	Llywodraeth Cymru, ynghyd â sefydliadau addysg uwch a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i weithio gyda'i gilydd i wella darpariaeth y cyrsiau cyfrwng Cymraeg presennol mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a nodi cyfleoedd ychwanegol i symud yr agenda yn ei blaen.	Llywodraeth Cymru CCAUC Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Sefydliadau Addysg Uwch Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Erbyn Mawrth 2017
5.6	Rhaglenni hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i gynnwys modiwl/elfen ar effaith sensitifrwydd i iaith ar effeithiolrwydd asesiadau a gofal; y 'Cynnig Rhagweithiol' a chyfrifoldeb cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.	Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Sefydliadau Addysg Uwch Awdurdodau Lleol	Erbyn Mawrth 2017
5.7	Partneriaethau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol i osod ac adolygu targedau ar gyfer recriwtio myfyrwyr sydd â sgiliau Cymraeg. (Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn unig)	Yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid a'r Sefydliadau Addysg Uwch	Erbyn Mawrth 2017
5.8	Galluogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i gael eu paru gyda staff sy'n siarad Cymraeg pan fyddant ar leoliad. Llywodraeth Cymru i weithio i alluogi darparwyr addysg i gael mynediad at ddata ESR dienw ar sgiliau Cymraeg staff GIG Cymru.	Llywodraeth Cymru	Erbyn Mawrth 2018

Amcan 6

Y Gymraeg yn y gweithle

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Bydd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau Cymraeg ar draws ieched, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol pan fydd arnynt eu hangen.
- Bydd pobl yn derbyn gwasanaethau lle mae galluedd a chymhwysedd Cymraeg y staff wedi ei sefydlu yn y gweithdrefnau adnoddau dynol a recriwtio.
- Bydd pobl yn gallu gweld – drwy'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn bod y gwasanaethau ieched, y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hardal yn adlewyrchu anghenion Cymraeg y boblogaeth leol.

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Lluoio Polisiâu ac o ran Gweithredu.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
6.1	Cefnogir hyfforddiant i staff ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. Caiff cyfleoedd hyfforddi ac adnoddau iaith i gynyddu hyder staff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg hefyd eu hybu.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2018
6.2	Rhaglenni datblygu arweinwyr neu uwch reolwyr cenedlaethol mewn ieched neu ofal cymdeithasol i gynnwys elfen ar arwyddocâd iaith o ran ateb anghenion pobl, y 'Cynnig Rhagweithiol' a chynllunio iaith effeithiol.	Llywodraeth Cymru Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2018

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
6.3	Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach, y gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau'r GIG i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y gwerth a'r manteision i ddarparwyr gwasanaethau ac i bobl sy'n siarad Cymraeg o gael staff dwyieithog yn cael eu hadlewyrchu yn eu prosesau recriwtio, comisiynu a datblygu staff. Gall Gyrfu Cymru fod o gymorth drwy gynorthwyo'r sefydliadau i dargedu eu gwaith hysbysebu yn gywir tuag at siaradwyr Cymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Gwasanaethau Datblygu Addysg y Gweithlu (WEDs) Colegau Cymru Gyrfa Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Sefydliadau Addysg Uwch Darparwyr Addysg Bellach	Erbyn Mawrth 2018
6.4	Swyddogion Cymraeg (yn GIG Cymru) a Hyrwyddwyr y Gymraeg (yn y gwasanaethau cymdeithasol) i ddod yn Llysgenhadon Busnes gyda Gyrfu Cymru er mwyn hybu'r angen am staff sy'n siarad Cymraeg yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Colegau Cymru	Erbyn Mawrth 2017
6.5	Ymwybyddiaeth o'r cyswllt rhwng gwasanaethau sy'n sensitif i iaith ac urddas yr unigolyn, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol, i gael ei gyflwyno i holl staff GIG Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fel rhan o'r sesiynau ymfedydlu arferol. Dylai staff GIG Cymru hefyd gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel blaenoriaeth.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2017
6.6	Dylai sefydliadau'r GIG sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu prif ffrydio fel cymwyseddau craidd yn y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth. (GIG Cymru yn unig)	Prif Weithredwyr GIG Cymru	Erbyn Mawrth 2018
6.7	Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i ateb yr angen yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg y staff. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a hybu adnoddau a darpariaeth berthnasol.	Llywodraeth Cymru Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg	Erbyn Mawrth 2018
6.8	Yr holl gymwysterau sydd eu hangen ar weithlu gofal cymdeithasol i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu egwyddorion angen iaith a'r Cynnig Rhagweithiol yn ddigonol.	Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)	Erbyn Mawrth 2018

Rheoleiddio ac Arolygu

Beth fydd hyn yn ei olygu i bobl?

- Bydd gan bobl lais a gallant ddylanwadu ar ansawdd y gwasanaeth Cymraeg y maent yn ei dderbyn.
- Gall pobl sydd angen gwasanaeth yn Gymraeg fod yn sicr y bydd arolygiaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn adolygu ac yn adrodd am eu profiadau o'r gwasanaethau.
- Drwy ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol bydd pobl yn cael eu trin â pharch ac urddas.

Drwy gyflawni'r camau hyn, byddwch yn galluogi eich sefydliad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg o ran Cyflenwi Gwasanaethau a Llunio Polisiâu.

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn
7.1	Dylai'r holl archwiliadau ar wasanaethau gynnwys cwestiynau yn ymwneud â chanfyddiad y dinesydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gan ddarparwr y gwasanaeth, ochr yn ochr â phrofiadau'r siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau hynny. (GIG Cymru yn unig)	Prif Weithredwyr GIG Cymru	Erbyn Mawrth 2018
7.2	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i brif ffrydio'r gwaith o arolygu cynllunio, darparu a phrofiad o wasanaethau Cymraeg.	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)	Erbyn Mawrth 2019
7.3	Arolygwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i barhau i arolygu ac adrodd ar p'un a yw siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg fel rhan naturiol o'u gofal neu beidio, ac a yw siaradwyr Cymraeg yn medru defnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain pan fyddant yn derbyn gofal yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)	Erbyn Mawrth 2017

Atodiad 1

Enghreifftiau o arfer Da Mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Dyma rai enghreifftiau o arfer da o fewn y sectorau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol ers cyflwyno *Mwy na geiriau....* yn 2012. Mae nifer o'r mentrau hyn wedi derbyn cydnabyddiaeth am y gwaith a wnaed ac fe'u hystyrir yn enghreifftiau y gellir eu defnyddio yn fwy eang.

Darparu'r Cynnig Rhagweithiol

Ward B2 Ysbyty Cwm Rhondda

Er mwyn ateb y galw am wasanaethau Cymraeg gan gleifion, crëwyd ward yn yr ysbyty hwn gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r ward yn cael ei staffio gan staff clinigol sydd â sgiliau Cymraeg a defnyddir y deunyddiau 'Iaith Gwaith' yn helaeth. Ar ôl cyfnod llwyddiannus fel cynllun peilot, mae'r ward hon erbyn hyn wedi ei gwneud yn elfen barhaol o'r ddarpariaeth gofal iechyd ac mae gwaith caled yn cael ei wneud i hyrwyddo'r ward.

Mae eich claf nesaf yn siaradwr Cymraeg – gwnewch Gynnig Rhagweithiol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae'r prosiect hwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gwneud Cynnig Rhagweithiol. Datblygodd y bwrdd iechyd boster a thaflen wybodaeth ar gyfer y staff ar y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei hategu gan 'stori'r claf', sy'n tynnu sylw at y gwahaniaeth cadarnhaol y gall y Cynnig Rhagweithiol ei wneud. Mae cleifion wedi disgrifio sut mae derbyn Cynnig Rhagweithiol wedi gwneud byd o wahaniaeth i'w harhosiad yn yr ysbyty. Mae perchnogaeth y staff yn cael ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol a gwelir tystiolaeth o effaith negyddol methu â gwneud Cynnig Rhagweithiol yn allweddol ac felly mae defnyddio 'stori'r claf' yn bwysig dros ben.

Pwysigrwydd yr iaith Gymraeg wrth ddarparu gofal – Uned Gofal Dwys, Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Gofynnwyd i'r nyrs yn yr Uned Gofal Dwys ofalu am glaf hŷn, oedd heb adennill ymwybyddiaeth yn llawn bron bythefnos ar ôl rhoi'r gorau i'r tawelydd. Sylweddolodd y nyrs fod gan y claf enw Cymraeg traddodiadol ac edrychodd yn y cofnodion am ddewis iaith y claf; nid oedd unrhyw nodyn wedi ei wneud gan y staff derbyn. Ar ei liwt ei hun, dechreuodd siarad â'r claf yn Gymraeg. Agorodd llygaid y claf yn syth, gan fod y claf yn ei deall hi. Roedd y claf yn ddryslyd ac heb

wybod ble roedd, ac roedd wedi colli'r gallu i ddeall a siarad Saesneg. Roedd y rhyddhad a'r cysur o ddod o hyd i rywun oedd yn gallu sgwrsio ac egluro'r sefyllfa yn amlwg ar unwaith. Ers y digwyddiad hwn, mae'r ysbyty wedi teilwra'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn ôl anghenion y claf, gyda'r iaith Gymraeg yn helpu nyrsys a staff meddygol i asesu'r claf yn drwyadl am y tro cyntaf ers iddo gael ei dderbyn.

Arweinyddiaeth

Prosiect Hyrwyddwyr Iaith, Prifysgol Bangor

Gan fod arweinyddiaeth mor bwysig wrth ddatblygu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, nod y prosiect arloesol hwn yw sefydlu unigolion fel Hyrwyddwyr y Gymraeg yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Bangor. Unwaith y bydd yr Hyrwyddwyr Iaith wedi derbyn eu hyfforddiant, byddant yn gweithio i godi proffil materion sy'n effeithio ar y Gymraeg o fewn y gwasanaethau iechyd a sefydliadau dysg lleol.

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd a'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy

Mae'r Uwch Ymarferydd yn rheoli cynlluniau ac yn gweithredu pob agwedd ar Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad yw cynllun o'r fath yn rhywbeth newydd, beth sydd yn torri tir newydd yw bod y gwaith bob dydd yn sicrhau bod defnyddwyr y cynlluniau hyn yn cael y gwasanaeth yn eu dewis iaith. Gall cydweithio â rhwydweithiau perthnasol ar sail ddyddiol fod yn heriol. Er enghraifft, yn Saesneg mae'r rhwydwaith Ysgolion Iach yn gweithredu ac felly mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei throsglwyddo yn Gymraeg. Drwy ddarparu cymorth, hyfforddiant, dogfennau ac adnoddau yn Gymraeg, mae'r Cynlluniau yn cyfrannu tuag at hyrwyddo a diogelu iechyd a lles plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau mewn ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol yn effeithiol ac yn llwyddiannus.

Cynllunio gweithlu

Meddygfa Teifi, Llandysul

Ar ôl cynnal arolwg o gleifion y practis, lluniwyd cynllun gweithredu i gynyddu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperid gan y practis. Roedd rhan o'r cynllun yn cynnwys annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg neu ddysgu Cymraeg, a datblygwyd system gyfrifiadurol newydd i gofnodi dewis iaith cleifion ac a oedd angen trefniadau cyfieithu ar y pryd ai peidio ar gyfer atgyfeiriadau clinigol y cleifion hynny.

Cartref Preswyl Tŷ Foxtroy

O ganlyniad i ddarllen *Mwy na geiriau....* daeth y cartref preswyl hwn i'r henoed yn ymwybodol o'r angen i lunio cynllun gweithredu i gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol. Trefnwyd sesiynau Cymraeg o'r enw 'Gofalu yn Gymraeg – Caring in Welsh' yn y cartref mewn ymateb i angen y preswylwyr am wasanaethau yn Gymraeg. Mae'r sesiynau wedi cynnwys trafodaethau am ddiwylliant Cymru, bingo Cymraeg, canu emynau Cymraeg a llawer o weithgareddau eraill yn Gymraeg. Ar ôl sesiynau'r preswylwyr, cynhelir sesiynau hyfforddiant i'r staff i sicrhau y gall y staff ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Technoleg

Gwasanaeth Atgoffa am Apwyntiadau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae hwn yn wasanaeth cwbl ddwyieithog ar raddfa enfawr – 1.6 miliwn o apwyntiadau'r flwyddyn, sy'n cwmpasu poblogaeth o 676,000 ar draws Gogledd Cymru. Mae'r negeseuon testun, y neges llais awtomatig a'r ganolfan alwadau i gyd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog. Mae'r dechnoleg wedi cael ei phrofi, a gall yr hyn y mae'r bwrdd iechyd wedi ei ddysgu o ran iaith a chyfathrebu effeithiol, drwy negeseuon testun a llais, gael ei ddefnyddio gan weddill GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae'r prosiect wedi arbed dros 5,000 o apwyntiadau. Bydd hyn yn golygu arbediad sylweddol, tra'n sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn lleol.

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Penderfynodd Uwch Ymarferydd Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd greu adnoddau rhyngweithiol dwyieithog yn dwyn y teitl 'Tyfu i fyny'. Mae adnoddau 'Tyfu i Fyny' wedi eu bwriadu i ymateb i'r sensitifrwydd ym maes Addysg Rhyw a Pherthynas ac, o ganlyniad, erbyn hyn, mae athrawon yn hyderus ac yn gyfforddus yn cyflwyno'r pwnc, ac mae'r disgyblion yn mwynhau'r addysg. Ar ôl i'r adnoddau hyn gael eu creu ar gyfer ysgolion Gwynedd, gofynnodd Llywodraeth Cymru iddynt fod ar gael ar gyfer yr holl ysgolion yng Nghymru.

Adnodd gwybodaeth ddwyieithog am ganser ar-lein a ddatblygwyd gan gleifion ar gyfer cleifion – Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru

Grŵp gwirfoddol o bobl, y mae cancer wedi effeithio arnynt, yw Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru. Mae'r Fforwm, sy'n cynnwys cleifion cancer a gofalwyr, yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r Rhwydwaith Canser, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol a nifer o sefydliadau yn y trydydd sector. Datblygodd aelodau'r Fforwm wefan arloesol a gynlluniwyd yn benodol i gyfeirio pobl yng Ngogledd Cymru, y mae cancer wedi effeithio arnynt, at yr ystod eang o ffynonellau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael yn

seiliedig yn y gymuned. O'r cychwyn cyntaf, roedd y Fforwm wedi ymrwymo i wneud yr adnodd yn gwbl ddwyieithog, gan hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer y gyfran uchel o bobl yn y rhanbarth y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

Addysg a hyfforddiant

Gaf i ymuno â chi? – Derwen: Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl

Fe wnaeth y tîm hwn greu adnodd i helpu rhieni plant sydd â phroblemau cyfathrebu (megis awtistiaeth) a gweithwyr anarbenigol sy'n gofalu am y plant hyn. Mae'r adnodd yn cynnwys llyfr adnoddau i'w ddefnyddio gyda phlant yn ystod amser chwarae, llyfryn gwybodaeth a DVD. Mae'r adnodd Cymraeg arloesol hwn yn dangos strategaethau ymarferol syml y gellir eu defnyddio i annog plant ifanc i gyfathrebu.

Cynghorwyr Makaton ar y rhaglen arloesol i blant, 'Dwylo'r Enfys'

Yn dilyn llwyddiant 'Dwylo'r Enfys', rhaglen S4C ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol, creodd y grŵp hwn adnoddau a gweithdai Makaton (iaith arwyddion). Mae eu gwaith wedi golygu y defnyddir Makaton fwyfwy i helpu plant ag anghenion addysgol ychwanegol sy'n siarad Cymraeg a'r rheiny y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt.

Cwrs Cymraeg i wella'r berthynas rhwng staff gofal cymdeithasol a'r defnyddiwr gwasanaeth hŷn – Adran Dysgu a Datblygu, Cyngor Sir Caerfyrddin

'Cwrs Cymraeg ar gyfer Gofalwyr sy'n Gweithio gyda'r Henoed' sy'n anelu at helpu staff gofal i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gofalu am breswylwyr oedrannus sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cwrs 5 wythnos, sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg ar gyfer cyfarchion a'r tywydd, tasgau gofal, dewisiadau bwyd, dillad a rhannau o'r cartref, wedi'i deilwra i'r lleoliad a'r grŵp cleientiaid a'i nod yw gwella'r berthynas rhwng staff gofal cymdeithasol a'r defnyddwyr gwasanaeth hŷn.

Atodiad 2

Rhestr o Acronymau

Acronym	Enw Llawn
GIG Cymru	Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru
ADSS Cymru	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
IMTP	Cynllun Tymor Canol Integredig
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
ESR	Cofnod Staff Electronig
GP	Meddyg Teulu / Practis Cyffredinol
GMS	Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
SAB	Sefydliad Addysg Bellach
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
WEDs	Y Gweithlu, Addysg a Gwasanaethau Datblygu
KSF	Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth
COMEX	Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru